Planning • Cynllunio

Ffurflen 10 Cwyno am Wrych Uchel

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno cwyn i'r Cyngor dan Ran 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Darllenwch y nodiadau sydd ynghlwm cyn llenwi'r ffurflen hon. Llenwch mewn llythrennau BRAS ac ar ôl llenwi'r ffurflen anfonwch hi, ynghyd ag unrhyw wybodaeth atodol a'r ffi at:
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF

1. Achwynydd	**Cynrychiolydd (os yw'n berthnasol)**
Enw	Enw .....
Cyfeiriad.....	Cyfeiriad.....
.....	.....
.....	.....
Cod Post:	Cod Post: .....
Rhif ffôn yn ystod y dydd:.....	Rhif ffôn yn ystod y dydd:.....
Ffacs: .....Ffôn symudol:.....	Ffacs: .....Ffôn symudol:.....
E-bost:	E-bost: .....

Ai'r achwynydd yw perchennog neu denant yr eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno? Ie ☐ Nage ☐

2. Gwybodaeth am y grwych

Ydi'r gwrych - neu ran o'r gwrych - sy'n creu'r broblem, yn cynnwys rhes o ddwy goeden neu ddwy lwyn neu ragor? Ydi ☐ Nac ydi ☐

Ydi'r rhan fwyaf o'r gwrych yn fythwyrdd neu'n rhannol fythwyrdd? Ydi ☐ Nac ydi ☐

Ydi'r gwrych dros 2 fetr yn uwch na lefel y ddaear? Ydi ☐ Nac ydi ☐

Hyd yn oed os oes bylchau yn y dail, neu rhwng y coed, a yw'r gwrych yn dal yn rhwystro goleuni neu'n cuddio'r olygfa? Ydi ☐ Nac ydi ☐

Ydi'r gwrych yn tyfu ar dir sy'n eiddo i rywun arall? Ydi ☐ Nac ydi ☐

3. Yr eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno

Ai eiddo preswyl yw hwn? Ie ☐ Nage ☐

Enw a chyfeiriad neu leoliad yr eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno os yw'n wahanol i enw a chyfeiriad yr achwynydd:

.....

.....

..... Cod Post: .....

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

.....

Ffacs: ..... Ffôn symudol: .....

E-bost: .....

SYLWCH: Os ydych wedi ateb "Nac ydi/Nage" i unrhyw un o'r cwestiynau yn Rhan 1, 2, neu 3 yna nid yw Rheoliadau Gwrychoedd Uchel yn berthnasol i'ch achos chi ac ni all y Cyngor Sir fwrw ymlaen â'ch cwyn dan Ran 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Os ydych wedi ateb "Ie/Ydi" i'r holl gwestiynau, yna ewch ymlaen i lenwi gweddill y ffurflen.

4. Lleoliad y Gwrych

Cyfeiriad yr eiddo lle y mae'r gwrych yn tyfu: .....
..... Cod Post: .....
Enw'r Preswylydd: .....
Rhif ffôn yn ystod y dydd (os yw ar gael) .....Ffôn symudol (os yw ar gael).....
E-bost: (os yw ar gael) .....
Enw perchennog yr eiddo os yw'n wahanol i'r uchod: .....
Cyfeiriad perchennog yr eiddo: .....
.....
Rhif ffôn yn ystod y dydd: (os yw ar gael) .....Ffôn symudol (os yw ar gael) .....
E-bost: (os yw ar gael) .....

5. Ymdrechion i ddatrys y broblem

Rhowch ddisgrifiad byr o unrhyw ymdrechion ar eich rhan i ddatrys y broblem o dan y penawdau a ganlyn. Rhowch ddyddiadau a chopïau o unrhyw lythyrau y byddwch yn cyfeirio atynt.

(a) Dulliau uniongyrchol

Ydych chi wedi mynd at eich cymydog i geisio trafod y broblem? Do ☐ Naddo ☐
Os felly, sut ymateb gawsoch chi? .....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

(b) Cyflafareddu

Ydych chi wedi gofyn i berchennog y gwrych i ystyried cyflafareddu? Do ☐ Naddo ☐
Os felly, sut ymateb gawsoch chi? .....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

(c) Cysylltu â'r Cyngor Sir

Ydych chi wedi rhoi gwybod i berchennog y gwrych eich bod yn bwriadu cysylltu â'r Cyngor Sir Do ☐ Naddo ☐
Os felly, sut ymateb gawsoch chi? ....
....
.....
.....
.....

SYLWCH: Cyn y bydd y Cyngor Sir yn ystyried ymyrryd, dylech fod wedi cymryd y camau uchod tuag at ddatrys y broblem hon eich hun.

6. Rhesymau dros y gwyn

Disgrifiwch sut y mae gwrych eich cymydog yn effeithio arnoch chi. Disgrifiwch y problemau y mae'r gwrych yn eu creu oherwydd ei fod mor uchel. Bydd yn arbed amser ac yn helpu'ch achos os byddwch yn glynu wrth y ffeithiau ac yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi'ch achos. (Defnyddiwch ddalen ychwanegol os bydd angen)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

I gefnogi'ch achos, rhowch gynllun bras yn nodi safle'r gwrych mewn perthynas â'r eiddo a ffotograffau o'r gwrych (mae enghraifft o gynllun bras drosodd)

7. Cwynion blaenorol i'r Cyngor

Ydi'r Cyngor wedi cael cwynion ffurfiol eisoes mewn perthynas â'r gwrych? Ydi ☐ Nac ydi ☐

Os felly, rhowch ddyddiadau a/neu unrhyw gyfeirnod y Cyngor Sir

.....

.....

.....

Ydi'r amgylchiadau wedi newid o gwbl ers y tro diwethaf i'r Cyngor ystyried y gwyn? Ydi ☐ Nac ydi ☐

Os felly, eglurwch

.....

.....

.....

SYLWCH: Os nad yw'r amgylchiadau wedi newid yna gall y Cyngor Sir benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch cwyn

8. Dogfennau ategol

Rwy'n amgáu copïau o'r wybodaeth ategol a ganlyn:

Ffotograff(au) o'r gwrych Ydw ☐ Nac ydw ☐

Cynllun lleoli yn dangos safle'r gwrych mewn perthynas â'r tai cyfagos. Ydw ☐ Nac ydw ☐

Copïau o ohebiaeth rhwng yr achwynydd a pherchennog y gwrych Ydw ☐ Nac ydw ☐

Copïau o unrhyw ddogfennau eraill yr ydych wedi'u crybwyll yn eich cais Ydw ☐ Nac ydw ☐

Ffi £320 Mae ffi gostyngedig o £160 os yw'r achwynydd o oed pensiwn, wedi'i gofrestru'n anabl neu'n cael Budd-dal Gwladol. (Gweler y Canllawiau am ragor o wybodaeth am y ffioedd gostyngedig) Ydw ☐ Nac ydw ☐

9. Datganiad – i'w lenwi gan yr ymgeisydd

Rwyf wedi llenwi'r ffurflen hon gan roi'r holl wybodaeth sydd gennyf ac mae'r wybodaeth sydd ynddi'n gywir.

Amgaeaf ffi o £ ..... drwy siec/archeb post rhif ...../ arian parod

Arwyddwyd: ..... Dyddiad: .....

Enw mewn llythrennau bras: .....



Y Lôn Goed

Cynllun yn dangos lleoliad y gwrych ar dir cyfagos yn y Lôn Goed

Planning • Cynllunio

Ffurflen 10 Cwyno am Wrych Uchel - Canllawiau

Mae'r nodiadau hyn wedi'u paratoi i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais a dylech eu darllen ar y cyd â'r daflen "Gwrychoedd Uchel – Cwyno wrth y Cyngor." Os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen yn iawn, neu os na fyddwch yn rhoi digon o wybodaeth, mae'n bosib y bydd yn cymryd mwy o amser i brosesu'ch cais.

Cwestiwn 1 Achwynydd/Cynrychiolydd

Achwynydd: Hyd yn oed oes yw rhywun yn cyflwyno cwyn ar eich rhan, mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r manylion cysylltu. Rhaid i'r achwynydd fod yn berchen ar yr eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno, neu'n byw ynddo.

Cynrychiolydd: Llenwch y rhan hon os ydych yn gynghorydd proffesiynol, yn berthynas, yn ffrind neu'n cynrychioli'r achwynydd mewn rhyw ffordd arall. Byddwn yn cysylltu â'r cynrychiolydd gan amlaf i drafod pob mater yn ymwneud â'r achwynydd. At y cynrychiolydd y byddwn yn anfon pob gohebiaeth ac ymholiadau.

Rhaid i'r eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno fod yn eiddo preswyl, yn llwyr neu'n rhannol (e.e. fflat fel rhan o safle busnes)

Cwestiwn 2 Gwybodaeth am y Grwych

Dylech edrych yn ofalus dros eich atebion i'r cwestiynau hyn gan ofalu'ch bod yn gwneud cwyn y gall y Cyngor ddelio ag ef dan Ran 8 o Ddeddf ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

Cwestiwn 3 Yr eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno

Fel arfer, bydd hwn yr un fath ag enw a chyfeiriad yr achwynydd. Os chi yw'r landlord sy'n cwyno arm wrych sy'n effeithio ar eiddo rydych yn berchen arno, rhowch fanylion cysylltu'r tenant er mwyn medru trefnu i fynd i mewn i'r eiddo.

Cwestiwn 4 Lleoliad y gwrych

Enw a chyfeiriad y sawl yr ydych wedi ceisio trafod y sefyllfa ag ef/hi. Os nad oes cyfeiriad post ar y safle lle mae'r gwrych yn tyfu, disgrifiwch y lleoliad mor glir ag y medrwch (e.e. tir yng nghefn 12- 18 Y Stryd Fawr).

Os nad ydych yn sicr pwy yw perchennog yr eiddo lle mae'r gwrych yn tyfu, gallwch holi'r Gofrestrfa Tir. Mae'r ffurflen berthnasol (313) ar eu gwefan (www.landregistry.gov.uk) neu mae modd ei chael gan y Swyddfa Leol. (£4) yw'r ffi am y gwasanaeth ar hyn o bryd os gwyddoch gyfeiriad post llawn yr eiddo.

Neu, mae'r Gofrestrfa Tir Ar-lein (www.landregisteronline.gov.uk) yn caniatáu ichi weld manylion eiddo sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae modd lawrlwytho copïau o gynlluniau a chofrestri eiddo sy'n cael eu cadw'n electronig ar ffurf PDF am £2 yr un. Mae'r gofrestr yn cynnwys manylion y perchnogion.

Mae arnom angen y wybodaeth hon er mwyn inni fedru cysylltu â'r perchennog i gael eu sylwadau neu i drefnu i ymweld â'r safle lle mae'r gwrych yn tyfu.

Cwestiwn 5 Ymdrechion i ddatrys y broblem

Cadwch eich disgrifiad yn fyr ond dywedwch sut yr aethoch ati i drafod y mater (e.e. wyneb yn wyneb, ffôn, llythyr) a'r canlyniad.

(a) Dulliau uniongyrchol

Enghraifft:

12 Mawrth 2005 – ffonio i ofyn a allwn drafod y gwrych. Cyfarfod ar 19 Mawrth ond yn methu cytuno ar ffordd o ddatrys y broblem.

(b) Cyflafareddu

Enghraifft;

15 Ebrill – ymweliad gan y cyflafareddwr;

29 Ebrill – cyfarfod â'r cymdogion a'r cyflafareddwr. Ond ni chafwyd hyd i ateb a oedd yn bodloni'r ddau/ddwy ohonom;

Rhowch dystiolaeth o'r ymdrech diwethaf i ddatrys y broblem

(c) Cysylltu â'r Cyngor Sir

Enghraifft;

14 Mai – ysgrifennu i roi gwybod i'r cymydog fy mod am gwyno wrth y Cyngor

Cwestiwn 6 Rhesymau dros y Gwyn

Bydd o gymorth os rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch ond cadwch at y ffeithiau. Cofiwch y bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei hanfon at berchennog yr eiddo lle mae'r gwrych yn tyfu, a'r sawl sy'n byw yno os yw'r ddau yn wahanol.

Canolbwyntiwch ar y gwrych a'r problemau y mae'n ei achosi.

Ni allwn ystyried problemau nad ydynt yn gysylltiedig ag uchder y gwrych. Er enghraifft, os yw gwreiddiau'r gwrych yn difrodi'r llwybr. Ni allwn ychwaith ystyried pethau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwrych dan sylw. Er enghraifft, bod pobl eraill yn torri eu gwrychoedd yn is; neu fod yr holl boeni'n eich gwneud yn sâl.

Anfonwch ffotograff o'r gwrych a'r cynllun sy'n dangos lleoliad y gwrych a'r eiddo cyfagos.

Wrth wneud y cynllun, edrychwch ar yr enghreifftiau ar gefn y ffurflen gwyno gan gofio:

- Marcio ac enwi'r ffyrdd cyfagos.
- Gwneud braslun o'r adeiladau, gan gynnwys yr eiddo cyfagos. Rhowch rifau ac enwau'r tai.
- Marcio lleoliad y gwrych yn glir a pha mor bell y mae'n ymestyn.
- Nodi pa ffordd yw'r Gogledd
- Nodi mesuriadau perthnasol mewn metrau (e.e. maint yr ardd, y pellter rhwng y gwrych ac unrhyw ffenestri y mae'n effeithio arnynt)

Os ydych yn cwyno am wrych sy'n rhwystro golau, nodwch y ffenestri y mae'n effeithio arnynt. Os dim ond rhan o'r adeilad dan sylw sy'n cael ei defnyddio at ddibenion preswyl, dim ond y ffenestri hynny sy'n berthnasol i'r defnydd hwnnw y dylid eu nodi.

Anfonwch gopïau o unrhyw adroddiadau proffesiynol sydd wedi'u paratoi ac unrhyw ddogfennau yr ydych am i'r Cyngor eu hystyried.

Cwestiwn 7 Cwynion blaenorol i'r Cyngor

Dim ond cwynion ffurfiol a wnaed yn unol â Gwrychoedd Uchel Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 y mae angen eu nodi. Does dim angen ichi sôn am alwadau ffôn neu gysylltiadau anffurfiol â'r Cyngor ynghylch y gwrych.

Cwestiwn 8 Dogfennau ategol

Gofalwch eich bod wedi ticio'r holl flychau perthnasol ac wedi amgáu'r holl ddogfennau.

Os ydych wedi ticio'r blwch olaf, rhestrwch y dogfennau hyn yn ôl dyddiad a theitl (e.e. Ionawr 2005 - Adroddiad y Syrfëwr). Bydd hyn yn ein helpu i weld bod popeth gennym

Cwestiwn 9 Datganiad

Y ffi safonol i wneud cwyn am Wrych Uchel yw £320. Ond os ydych chi o oed pensiwn, wedi'ch cofrestru'n anabl neu'n cael Budd-dal Gwladol, cewch dalu ffi ostyngedig os ydych yn llenwi'r Ffurflen Ffi Ostyngedig.